Cyngor Tref Frenhinol Caernarfon

Cofnodion y Pwyllgor Gwaith, 22/09/20 – Cyfarfod Rhithiol

Yn bresennol:

Y Cynghorwyr A.Hopcyn, D.L.Jones, C.Larsen (Cadeirydd), I.C.Thomas, R Thomas, C.Williams

---

Cyn y cyfarfod, cynhaliwyd Ymweliad Safle yn Parc Coed Helen er mwyn i'r aelodau gael gweld y safle a'r materion sy'n codi.

1.Ymddiheuriadau

Y Cynghorydd J.W.Parry

2.Datgan Buddiant Personol

Dim.

3.Eitemau Brys (Cadeirydd/Clerc)

Dim.

4. Gwaith Amrywiol

Cynhaliwyd trafodaeth ac adolygu'r sefyllfa o ran y canlynol, gyda Steffan Jones, Pennaeth Adran Priffyrdd a Bwrdeistrefol Cyngor Gwynedd.

- **Cynnal Tiroedd**

Nodwyd:

(1) Bod anghenion y Cyngor o ran cynnal tiroedd wedi ei drafod yn y Cyngor Llawn yn ei gyfarfod ar y 1af o Fedi.
(2) Y dylid symud yn ôl i'r drefn o gael pedwar toriad y flwyddyn, y flwyddyn nesaf.
(3) Bod cwynion wedi dod i law o ran safon y torri gwair ym Mynwent Llanbeblig, a bod yr Adran Briffyrdd a Bwrdeistrefol wedi darparu ymateb i Glerc y Dref. Fodd bynnag roedd gwair wedi ei adael dros y beddi, a gofynnwyd os oedd gan yr Adran Briffyrdd a Bwrdeistrefol unai chwythwr neu rywbeth i sugno'r gwair i fyny? Roedd cydnabyddiaeth fod rhai o'r beddi yn agos at ei gilydd, oedd yn gwneud pethau'n anoddach.

Nododd Steffan bod peiriant chwythu, ac y dylai ei Adran fod wedi sicrhau fod y beddi wedi cael eu glanhau yn well. Roedd hefyd am edrych i mewn i beth ddigwyddodd pan aeth rhan o'r fynwent dan ddŵr.

Penderfynwyd, gan fod Pennaeth Adran Priffyrdd a Bwrdeistrefol Cyngor Gwynedd wedi datgan eu bod yn bwriadu gwneud pethau ychydig yn wahanol, er enghraifft torri mwy mewn rhai lleoedd a llai mewn lleoedd eraill, y dylid gofyn i'r Clerc ofyn i'r aelodau am eu sylwadau / dymuniadau.

- **Casglu Sbwriel**

Nodwyd bod cydweithrediad da rhwng y Cyngor Tref a Chyngor Gwynedd er mwyn sicrhau fod gwaith yn cael ei gyflawni.

Nodwyd ymhellach nad oedd y peiriant yn gallu glanhau bob man, er enghraifft rhai o'r llwybrau. Gofynnwyd os oedd posib cydweithio gyda Cyngor Gwynedd er mwyn canfod datrysiad?

Cafwyd trafodaeth o ran diffyg biniau ar y Promenâd, a'r bwriad maes o law oedd gosod bin ar bob pen.

Nododd Steffan bod gan berchnogion siopau a busnesau ddyletswydd i lanhau tu allan i'w heiddo, a bod gan Gyngor Gwynedd rôl i orfodi hyn.

Penderfynwyd:

(1) Trefnu cyfarfod rhwng Pennaeth Adran Priffyrdd a Bwrdeistrefol Cyngor Gwynedd a Chlerc y Dref er mwyn adeiladu ar y cydweithio.

(2) Gofyn i aelodau anfon at y Clerc wybodaeth am unrhyw ardaloedd oedd angen sylw penodol o ran casglu sbwriel.

- **Swyddog Cynnal a Chadw**

Penderfynwyd gofyn i Bennaeth Adran Priffyrdd a Bwrdeistrefol Cyngor Gwynedd a Chlerc y Dref drafod er mwyn canfod cerbyd i Swyddog Cynnal a Chadw'r Cyngor Tref.

- **Biniau Halen**

Nodwyd y dylid rhoi gwybodaeth ar y biniau halen gyda manylion y Cyngor Tref, a phwyntiau cyswllt os oedd yr halen yn rhedeg allan.

Penderfynwyd:

(1) Gofyn i Bennaeth Adran Priffyrdd a Bwrdeistrefol Cyngor Gwynedd gysylltu gyda'r Clerc gyda gwybodaeth pellach am finiau halen yn y dref, a pha strydoedd oedd yn cael eu gritio.

(2) Gofyn i'r Cynghorydd C.Williams gysylltu efo'r Clerc o ran yr angen i gael bin halen ger "Feed my Lambs".

- **Llochesi Bysus**

Nodwyd bod lle i gydweithio o ran y Cyngor Tref a Chyngor Gwynedd yn hyn o beth.

- **Gwylanod**

Penderfynwyd awdurdodi'r Clerc i gysylltu efo'r dyn efo tylluan yn y Gwanwyn (nid oedd hyn wedi digwydd eleni oherwydd Covid-19).

- **Lladd Chwyn**

Nododd Steffan y bydd yn cael cwmni i mewn i edrych ar hyn yn y mis nesaf, a'i fod yn awyddus i ddefnyddio gangiau ymatebol.

Penderfynwyd y dylai aelodau dynnu sylw'r Clerc o ran unrhyw broblem oedd yn bodoli o ran chwyn yn y dref.

- **Cylchfannau**

Nodwyd fod y gylchfan ger Morrisons yn gweithio'n dda o ran y blodau gwyllt.

Nododd Steffan y dylid cael sgwrs pellach pan mae'r amser yn dod o amgylch y pwnc o "de-trunking".

5. Parc Coed Helen

Cyflwynwyd – adroddiad ysgrifenedig ar drosglwyddiad Parc Coed Helen.

Nodwyd:

- **Sicrhau'r gallu gan y Cyngor i gwblhau'r holl waith ychwanegol fydd yn disgyn ar staff y Cyngor.**

(1) Bod y pwyllgor yma wedi adnabod gwaith y bydd y Cyngor Tref yn gyfrifol amdano wedi trosglwyddo, sef:

1. Casglu sbwriel / Gwagu biniau a throsglwyddo sbwriel i'r man casglu priodol.
2. Chwynnu
3. Tasgau glanhau gan gynnwys glanhau'r toiledau yn ddyddiol.
4. Deilydd goriadau i'r parc. Agor / Cloi a glanhau'r ystafelloedd newid.
5. Archwilio offer chwarae i sicrhau ei fod mewn cyflwr derbyniol.
6. Derbyn llogiadau, anfonebu amdanynt a bancio'r pres.

(2) Erbyn hyn bod dyletswyddau ychwanegol wedi eu hadnabod, er enghraifft rhoi llinellau ar y cael pêl-droed a gwaith cynnal a chwadw cyffredinol.

(3) Bod y Pwyllgor Personel wedi gofyn am swydd ddigrifiad drafft fel man cychwyn eu trafodaethau ar y 29ain o Fedi i sicrhau'r capasiti i gyflawni'r gwaith.

Penderfynwyd nodi'r uchod.

- **Prydles ar gyfer y clwb criced.**

Nad yw wedi bod yn bosib dod i gytundeb gyda'r clwb criced ar newid termau'r prydles. Felly mae cyfrieithiwr y Cyngor Tref yn llunio prydles yn seiliedig ar eu prydles presennol, sef prydles tymhorol am flwyddyn.

Penderfynwyd argymell y byddai torri'r Cae Criced ar ddydd Gwener cyn bob gêm gartref yn ystod y tymor yn rhesymol.

- **Prydles ar gyfer tenant y flat.**

Bod cyfreithiwr y Cyngor yn llunio tenantiaeth i'w gynnig i denant y flat yn unol â phenderfyniad y Pwyllgor Gwaith yn ei gyfarfod diwethaf.

Penderfynwyd nodi'r uchod.

- **Prydles y clwb bowlio**.

Bod Pwyllgor y Clwb Bowlio wedi newid yn llwyr ers dechrau'r broses, ond mae darpar brydles yn cael ei lunio gan gyfreithiwr y Cyngor yn seiliedig ar y brydles bresennol, ond gyda newidiadau er budd y ddau ochr ble mae cytundeb.

Penderfynwyd nodi'r uchod.

- **Torri Glaswellt a Cynnal a Chadw'r Tir**

(1) Hyd nes bod cytundeb rhyngom a'r clwb criced ni fyddwn yn gwybod maint y gwaith torri glaswellt ac felly nid yw wedi bod yn bosib llunio'r dogfennau tendr.
(2) Bod Adran Priffyrdd a Bwrdeistrefol Cyngor Gwynedd wedi cytuno i roi pris fesul toriad am barhau â'r gwaith cynnal tir os nad ydym wedi llwyddo i gwblhau broses tendr cyn trosglwyddo.
(3) Bod tri cwmni neu sefydliad wedi eu hadnabod i'w gwahodd i broses tendr pan ddaw'r amser.
(4) Bod Adran Priffyrdd a Bwrdeistrefol Cyngor Gwynedd wedi cytuno i rannu sail eu gwaith presennol fydd o gymorth wrth llunio canllawiau'r gwaith, a sicrhau fod pawb yn prisio am yr un peth yn y dogfennau tendr.

- **Maes Parcio**

(1) Ei bod yn bosib defnyddio "pay by phone" drwy sustemau Cyngor Gwynedd, a bydd hyn yn arbed y costau gosod.

(2) Bod modd i ni neud hyn dim ond wrth ofyn i Gyngor Gwynedd reoli'r maes parcio ar ein rhan, ac mi fydd ffi rheoli i'w dalu am hyn.
(3) Cyngor Gwynedd fydd yn casglu'r taliadau a'u trosglwyddo I'r Cyngor Tref yn chwarterol, Gwynedd fydd yn gorfodi a Gwynedd fydd yn codi'r arwyddion ar ein rhan.
(4) Bod angen cais ffurfiol gan y Cyngor Tref yn amlinellu'r drefn parcio y byddwn yn gofyn i Wynedd ei orfodi, a bydd Gwynedd yn ymateb gyda dyfynbris am wneud.
(5) Bod Cyngor Gwynedd wedi rhoi £6,500 i un ochr ar gyfer ariannu peiriannau parcio na fydd bellach eu hangen. Gofynnom a fydd modd i ni gael yr arian beth bynnag gan fod y costau wedi newid o rhai cyfalaf i rhai refeniw. Fodd bynnag roedd yn debygol na chawn y £6,500 i gyd, ond os gallwn adnabod gwariant yr hoffem ei wneud ar y parc neu'r maes parcio ynghyd ac amcan anffurfiol o bris a'u cyflwyno mewn llythyr swyddogol yna mae'n debyg y bydd cytundeb i drosglwyddo'r arian atom.
(6) Mai gorau po gyntaf ein bod yn gwneud cais swyddogol am yr arian gan ei fod dim ond wedi ei arbed tan diwedd y flwyddyn ariannol.
(7) Y derbyniwyd cadarnhad swyddogol gan adran gyfreithiol Cyngor Gwynedd nad oes cymal yn nadu codi am barcio yn y parc.

Penderfynwyd:

(1) Gofyn i'r Dirprwy Glerc i anfon llythyr at yr adran briodol yng Nghyngor Gwynedd yn amlinellu cynlluniau bras i wario'r arian sydd wedi ei neilltuo i'r maes parcio ac, ar ôl derbyn cytundeb, i anfonebu am y swm.
(2) Gofyn i'r Dirprwy Glerc i ddanfon llythyr at yr adran briodol yng Nghyngor Gwynedd yn gofyn yn swyddogol iddynt i reoli'r maes parcio ar ran y Cyngor Tref wedi trosglwyddo ac yn y llythyr yna i amlinellu'n fras y drefn yr hoffem ei weithredu yn y maes parcio.

- **TPO's**

(1) Bod Cyngor Gwynedd wedi datgan yn anffurfiol nad oedd Gorchmynion gwarchod coed ar y rhannau o'r safle fydd yn trosglwyddo i ofal y Cyngor Tref.
(2) Y dyliwn fynnu bod Cyngor Gwynedd yn gwneud arolwg llawn o'r coed sydd ar y safle.

Penderfynwyd gofyn i'r Dirprwy Glerc i wneud cais ffurfiol bod Cyngor Gwynedd yn gwneud arolwg llawn o'r coed sydd ar y safle, ac yn ddibynnol ar yr adroddiad, eu bod, cyn trosglwyddo, yn gweithredu i sicrhau fod yr holl goed yn ddiogel.

Gadawodd y Cynghorydd C.Williams y cyfarfod am 7.30 p.m.

6. Covid 19 – Gwaith Cynnal a Chadw yn y Dref

Cyflwynwyd – adroddiad ar y gwaith cynnal a chadw ychwanegol sydd wedi cael ei wneud yn y dref yn sgîl Covid-19.

Nodwyd:

(1) Bod effaith yr argyfwng Covid-19 ar fusnesau Caernarfon wedi cael ei drafod yn y Cyngor Llawn yn ei gyfarfod ar y 23ain o Orffennaf a'r 6ed o Awst, a bod y Cyngor wedi penderfynu i wneud llawer o waith angenrheidiol yn y dref.
(2) Bod y Cyngor wedi penderfynu i roi'r Rheolau Sefydlog o'r neilltu, yn ei gyfarfod ar y 6ed o Awst, er mwyn cyflawni'r gwaith.

Trosolwg o'r Gwaith

Bod y Cyngor Tref wedi cydweithio gyda Cyngor Gwynedd, a chyfrannu'n ariannol er mwyn gwella edrychiad a chyflwr y dref:

- **Jet Wash**

(1) Y rhoddwyd pwysau ar Gyngor Gwynedd i roi "jet wash" i rai ardaloedd yn y dref, a gwnaethpwyd hyn ar y 15fed a'r 16eg o Awst**.**
(2) Bod y tîm sydd fel arfer yn glanhau'r strydoedd wedi sicrhau fod "street sweeper" ar waith gyda'r criw jet-wash, er mwyn glanhau unrhyw fudreddi roedd y jet-wash wedi ei godi. Fodd bynnag, roeddynt yn ymwybodol nad oedd y gwaith wedi cyflawni cymaint ac yr oeddent wedi ei obeithio felly maent yn ymchwilio ffyrdd i wella'r gwasanaeth at y dyfodol.

Nodwyd nad oedd y gwaith efo jet-wash yn golygu fod "deep clean" wedi cymryd lle, ac y dylai unrhyw waith glanhau "deep clean" ddigwydd wythnos cyn y Pasg y flwyddyn nesaf, cyn i'r ymwelwyr gyrraedd.

- **Dau ddyn o gwmni Gwalch yn cynorthwyo Ken bob dydd Gwener.**

Nodwyd y cyflogwyd gweithwyr ychwanegol am gyfnod penodol er mwyn cynorthwyo Swyddog Cynnal a Chadw'r dref. Roedd Cwmni Gwalch yn darparu 2 weithiwr ar ddydd Gwener er mwyn cynorthwyo Swyddog Cynnal a Chadw'r Cyngor Tref. Mae hyn bellach wedi cael ei ymestyn hyd at ddiwedd mis Hydref. Mae Cwmni Gwalch yn darparu trosolwg wythnosol o'r gwaith ac mae hyn yn cael ei rannu gydag aelodau.

Penderfynwyd argymell i'r Cyngor Llawn bod Cwmni Gwalch yn cael eu defnyddio yn y modd presennol hyd at ddiwedd y flwyddyn ariannol.

- **Cysgodfannau Bws**

(1) Bod awdit wedi ei wneud o'r cysgodfannau bysus yn y dref, sydd wedi ei rannu gydag aelodau, a'r bwriad yn awr yw trefnu fod y cysgodfannau'n cael eu glanhau.
(2) Ein bod yn aros am ymateb gan Gwynedd ar gyd-weithio i lanhau'r cysodfannau, rydym wedi gwneud ymholiadau cychwynnol gyda chwmni allanol.

Nodwyd y dylai aelodau ystyried os oeddynt yn dymuno'r cysgodfannau bws gael eu glanhau neu eu hatgyweirio?

Penderfynwyd:
(1) Gofyn i'r Clerc ail-anfon yr awdit o gysgodfannau bysus yn y dref i'r Cadeirydd, Is-gadeirydd a'r Dirprwy Glerc, gan ddod ag argymhelliad gerbron y Cyngor o ran pa dri neu bedwar cysgodfan y dylid blaenoriaethu.
(2) **Y dylai unrhyw waith ar y cysgodfannau gael ei wneud cyn gynted ag y bo'n ymarferol bosib, ac o fewn y ddau fis nesaf.**

- **Y Promenâd**

(1) Gan mai tir yr ymddiriedolaeth harbwr ydi hwn, nad oedd Cyngor Gwynedd wedi glanhau'r ardal. Felly gofynnwyd i Gwalch rhoi pris am y gwaith yma heb boeni torri ar draws gwaith Gwynedd.
(2) Bod Cwmni Gwalch wedi glanhau'r Promenâd, gydag offer sgwrio yn lle jet-wash. Roedd hyn yn fodd i sicrhau nad oedd niwed i wyneb y Promenâd ac hefyd nad oedd cemegion na micro plastics yn cael eu golchi i'r Fenai.

- **Biniau Ysbwriel wrth y castell.**

Bod Cyngor Gwynedd wedi cytuno i wacio'r rhain yn amlach dros gyfnod yr haf gan bod gymaint o ymwelwyr yn y dref.

- **Tipio Slei Bach**

Bod trefn mewn lle i adrodd i Gyngor Gwynedd yr holl tipio slei bach.

- **Cyffredinol**

(1) Bod Adran Briffydd a Bwrdeistrefol Cyngor Gwynedd wedi gofyn am enwau strydoedd penodol ble roedd problem. Gofynnwyd i aelodau rannu unrhyw ardaloedd o bryder gyda'r swyddfa, ac roedd neges wedi ei anfon at yr holl gynghorwyr yn gofyn iddynt nodi unrhyw bryderon oedd ar eu wardiau.
(2) Bod gwair a llystyfiant yn cael ei dorri mewn ardaloedd penodol pan fo angen.

Penderfynwyd gofyn i'r Clerc gysylltu gydag aelodau i ofyn iddynt anfon iddo unrhyw waith oeddynt yn meddwl bod angen ei gwblhau ar eu wardiau erbyn diwedd pob mis, a bod y Clerc yn asesu'r rhain ac yn blaenoriaethu yn ôl yr angen.

- **Costau**

I Bwy	**Natur y Gwaith**	**Cost +TAW**

Cwmni Gwalch	2 Ddyn bob dydd Gwener @ £144+TAW x 13 at ddiwedd Hydref (7fed Awst – 30ain Hydref)	£1872
Cwmni Gwalch	2 Ddyn i gynorthwyo pan oedd Ken Owen ar wyliau (10fed o Fedi) @ £144 + TAW	£144
Cwmni Gwalch	Chwynnu, dyfrio a gwaredu gwastraff ar y planters ar y Maes £38+TAW	Dibynnol ar nifer o weithiau
Cwmni Gwalch	Gwaith glanhau'r Promenâd	£845

Nododd y Clerc bod peth gwaith ychwanegol wedi ei wneud ers i'r rhaglen fynd allan er enghraifft ym Mharc Muriau ac yn Lôn Bwgan.

Nodwyd ymhellach mai'r ddau brif flaenoriaeth oedd cysgodfannau bysus a thipio slei bach.

Penderfynwyd nodi'r uchod a pharhau gydag unrhyw waith angenrheidiol.

7. Parcio yng Nghaernarfon

Cyflwynwyd adroddiad llafar ar y sefyllfa ddiweddaraf.

Nododd y Clerc:

(1) Bod y Cyngor Llawn wedi penderfynu, yn ei gyfarfod ar y 7fed o Ionawr 2020, i dderbyn y cynnydd o 10% yn y costau o barcio yng Nghaernarfon o'r 1af Ebrill, 2020, gan ddatgan y dylai unrhyw incwm ychwanegol gael ei wario er budd y gymuned leol, ac y dylid cynllunio dros gyfnod o 3 blynedd.

(2) Yn y cyfarfod o'r Cyngor Llawn a gynhaliwyd ar y 4ydd o Chwefror 2020, cyflwynwyd deiseb, ar ran Siopwyr Caernarfon, gan y Cynghorwyr W.R.Owen a J.W.Parry yn gwrthwynebu i godi'r taliadau am barcio yng Nghaernarfon.

(3) Erbyn hyn bod y Cyngor Llawn wedi penderfynu gadael y gytundeb ar y bwrdd am y tro, oherwydd yr amgylchiadau o ran Covid-19.

Penderfynwyd argymell i'r Cyngor Llawn y na ddylid dechrau'r trefniant o ran codi 10% ar barcio yn y dref hyd nes Pasg 2021.

Gorffennodd y cyfarfod am 8.00 p.m.

Arwyddwyd _____

Dyddiad _____